

Ein cyf: PT/jm

Eich cyf:

Dyddiad: 9 Gorffennaf 2012

Gofynnwch James Merrifield

am:



01656 644 200



James.Merrifield@ombudsman-wales.org.uk

Mr Simon Dean
Prif Weithredwr
Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Unir 2 Charnwood Court
Parc Nantgarw
Nantgarw
Caerdydd
CF15 7QZ

Annwyl Mr Dean

Llythyr Blynyddol 2012-2013

Yn sgil cyhoeddi fy Adroddiad Blynyddol yn ddiweddar, mae'n bleser gennyf amgáu'r Llythyr Blynyddol (2012-2013) ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG Felindre .

Fel yr amlinellir yn fy Adroddiad Blynyddol, cynyddodd nifer y cwynion newydd i'm swyddfa 12% i'r hyn oedd yn 2011/12. Cwynion ynghylch iechyd yw'r cwynion mwyaf niferus o hyd a, bellach, maent i gyfrif am fwy na thraean o'r holl gwynion a ddaeth i law. Er bod modd priodoli rhyw gymaint o'r cynnydd i newidiadau yn sgil trefniadau unioni cam 'Gweithio i Wella', mae'r cynnydd, bron yn bendant, yn adlewyrchu mwy o anfonlonrwydd gyda'r gwasanaeth iechyd.

Wrth gyfeirio at berfformiad cyffredinol Byrddau Iechyd yng Nghymru, bu cynnydd o 35% yn nifer yr adroddiadau ymchwilio a gyhoeddwyd gan fy swyddfa yn ystod 2012/13 o'i gymharu â 2011/12. At hyn, rwyf wedi cael achos eto i gyhoeddi nifer o Adroddiadau er Lles y Cyhoedd sy'n nodi pryderon a ffaeleddau - gyda phob un ohonynt yn ymwneud â'r byrddau iechyd. Er nad yw nifer gyfartalog yr adroddiadau 'heb ei gadarnhau' a gyhoeddwyd yn erbyn cyrff iechyd wedi newid ers y llynedd, rwyf yn siomedig i nodi cynnydd mor fawr yn nifer gyfartalog yr adroddiadau 'wedi ei gadarnhau', a hynny o 11 adroddiad i 21.

Mae'n werth nodi cynnydd pellach o'r naill flwyddyn i'r llall yn nifer yr 'Atebion Sydyn' a'r 'Setliadau Gwirfoddol' a gyflawnwyd gan y swyddfa hon - cynnydd o 13 achos i 16. Bellach, mae crynodebau o atebion sydyn a setliadau gwirfoddol i'w gweld yn fy nghyhoeddiad chwarterol, 'Coflyfr yr Ombwdsmon', os ydych yn dymuno manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddysgu gwersi o'r mathau hyn o achosion.

Fodd bynnag, siomedig yw gorfod nodi nad yw'r amser y mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn ei gymryd i ymateb i geisiadau am wybodaeth gan fy swyddfa wedi gwella. Mae'n destun pryder i mi fod 45% o'r holl ymatebion wedi cymryd dros bum wythnos, gyda 28% o ymatebion yn cymryd dros 6 wythnos. Rwyf yn sylweddoli bod adnoddau wedi'u hystyngi i'r eithaf y dyddiau hyn, ond mae oedi o'r fath yn fy rhwystro rhag rhoi'r gwasanaeth y mae ganddynt yr hawl i'w ddisgwyl i achwynwyr. Rwyf yn annog yr holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru i ailedrych ar eu perfformiad.

Mewn perthynas â'ch Ymddiriedolaeth chi, er bod nifer y cwynion a ddaeth i law wedi gostwng, mae un gŵyn wedi bod yn destun ymchwiliad gan fy swyddfa i. Mae'r ffigurau yn dangos fod y ddwy gŵyn a dderbyniwyd yn ystod 2012/13 yn ymwneud â 'triniaeth glinigol mewn ysbyty'. Mae'r ffigurau'n dangos fod ymateb eich Ymddiriedolaeth i'r gŵyn a fu'n destun ymchwiliad wedi dod i law o fewn pum wythnos i'r dyddiad y gofynnwyd amdano.

Fel gydag ymarferion blaenorol, rwyf wedi anfon copi o'r ohebiaeth hon at Gadeirydd eich Bwrdd Iechyd gyda'r bwrdd iddi gael ei hystyried gan y Bwrdd. At hyn, buaswn yn croesawu'r cyfle i gael cwrdd, a bydd fy swyddfa'n cysylltu â chi gyda hyn i wneud y trefniadau angenrheidiol. Yn olaf, bydd copi o'r llythyr hwn yn cael ei gyhoeddi ar fy ngwefan.

Yn gywir

Peter Tyndall
Ombwdsmon

Copi: Cadeirydd, Ymddiriedolaeth GIG Felindre

Atodiad

Nodiadau Esboniadol

Mae adrannau A a B yn rhoi dadansoddiad o nifer y cwynion yn erbyn Ymddiriedolaeth GIG Felindre a dderbyniwyd ac a fu'n destun ymchwiliad gan fy swyddfa yn ystod 2012-2013.

Mae Adran C yn cymharu nifer y cwynion yn erbyn Ymddiriedolaeth GIG Felindre a ddaeth i law fy swyddfa yn ystod 2012-2013, gyda'r ffigurau cyfatebol ar gyfer 2011-2012. Caiff y ffigurau hyn eu dadansoddi yn gategoriâu pwnc.

Mae Adran D yn cymharu nifer y cwynion yn erbyn Ymddiriedolaeth GIG Felindre a ddaeth i law fy swyddfa ac y cynhaliwyd ymchwiliad iddynt yn ystod 2012-2013, gyda'r ffigurau cyfatebol ar gyfer 2011-2012.

Mae Adran E yn cymharu canlyniadau'r cwynion yn erbyn Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn ystod 2012-2013, gyda'r canlyniadau cyfatebol yn ystod 2011-2012. Caiff yr Adroddiadau Budd Cyhoeddus a gyflwynwyd dan adran 16 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 eu cofnodi fel 'Adran 16'.

Mae Adran F yn dangos yr amseroedd ymateb ar gyfer y cwynion hynny y cynhaliwyd ymchwiliad iddynt yn ystod 2012-2013. Os na chofnodir amseroedd ymateb, mae'r graff yn cynnwys darlun o'r amseroedd ymateb cyfartalog ar gyfer cyrff ieched, a'r ffigur cyfartalog ar gyfer yr holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru yn ystod yr un cyfnod.


A: Cwynion a ddaeth i law fy swyddfa

Pwnc	2012-2013	2011-2012
Triniaethau clinigol mewn ysbyty	2	1
Eraill	0	2
Cyfanswm	2	3


B: Cwynion yr aeth fy swyddfa â hwy ymlaen i ymchwiliad

	2012-2013	2011-2012
Nifer y cwynion yr aethpwyd â hwy i ymchwiliad	1	0


C: Cymharu cwynion yn ôl categori pwnc



D: Cymharu'r cwynion a ddaeth i law ac yr ymchwiliwyd iddynt gyda ffigurau 2011-2012



E: Cymharu'r cwynion yn ôl y canlyniadau gyda ffigurau 2011-2012



F: Amser ymateb, 2012-2013

